# GYRFAOEDD MEDDYGOL

YNG NGHYMRU




GIG CYMRU NHS WALES

hyfforddigweithiobyw.cymru
#hyfforddigweithiobyw



# Yng Nghymru, nid gyrfa yn unig yr ydym yn ei gynnig, rydym yn cynnig ffordd o fyw.

Harlech, Eryri, Gogledd Cymru

# Cydbwyswch eich gwaith...



**P'un a ydych chi'n feddyg dan hyfforddiant neu a ydych wedi bod yn y proffesiwn meddygol ers blynyddoedd, gall symud i Gymru eich helpu i roi hwb i'ch gyrfa.**

Fel hyfforddai, gallwch ddewis o blith ystod eang o raglenni hyfforddi arbenigedd o ansawdd uchel — sydd wedi'u cynllunio i fod mor hyblyg ag sydd ei angen arnoch chi — a dysgu mewn amgylchedd cefnogol gydag enw da am ymchwil o'r radd flaenaf. Ac fel uwch feddyg byddwch yn gallu siapio'ch gyrfa gyda mynediad at y Llywodraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

# ...gyda'ch bywyd


Huw, Seiciatrydd Ymgynghorol

**O ran creu gyrfa lwyddiannus, gall dod o hyd i lefelau uwch o fodlonrwydd oddi wrth waith fod yn hanfodol wrth roi'r egni a'r cymhelliant sydd eu hangen arnoch i gyflawni popeth rydych yn anelu ato.**

Wedi'i fendithio gydag ymdeimlad cryf o gymuned, tai fforddiadwy, amgylchedd trawiadol a'r potensial ar gyfer ymlacio neu antur ddiddiwedd, mae Cymru'n addo cyfle i chi ddewis y ffordd o fyw rydych chi ei eisiau.

Drwy hyfforddi yng Nghymru, byddwch yn cael dewis o blith dwsinau o raglenni hyfforddi arbenigedd hyblyg o ansawdd uchel a derbyn cefnogaeth gan feddygon profiadol a all gefnogi eich datblygiad.

# Hyfforddi yng Nghymru



Hooria, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant

# Arloesi



> “Mae Cymru’n darparu cyfleoedd ar gyfer rhaglen hyfforddi meddygon teulu cefnogol a hyblyg iawn, sy’n rhoi cydbwysedd bywyd gwaith da i mi. Mae cymudo yn llawer mwy hylaw na rhannau eraill o’r DU.”
>
> **Hooria, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant**

## Hyfforddiant arloesol y gallwch ddibynnu arno

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gweithredu ystod eang o raglenni hyfforddi arbenigol i chi ddewis ohonynt, gyda mynediad at raglenni addysgu, adnoddau addysgol ac efelychu arbenigol. Oherwydd ein bod yn gwybod ei fod yn cymryd ymrwymiad ar y ddwy ochr i gynhyrchu’r canlyniadau gorau, mae GIG Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg i greu cyfleusterau addysgol o’r radd flaenaf i fyny ac i lawr y wlad.

## Mae ein trefniadau hyfforddi yn rhoi mwy i chi

Yng Nghymru, mae ein rhaglenni hyfforddi yn rhoi mynediad i chi i’r holl ofynion addysg a hyfforddiant a’r cyfleoedd sydd eu hangen arnoch i gyrraedd eich targedau hyfforddi a thyfu i fod yn feddyg medrus a hyderus. A’r tu allan i ysbytai, mae gennym amrywiaeth enfawr o arferion hyfforddi mewn lleoliadau gwledig hardd i ddinasoedd cosmopolitaidd.

## Ennill cymrodoriaeth fawreddog

Mae opsiynau datblygu yng Nghymru yn cynnwys cyfleoedd i hyfforddi ar Gymrodoriaeth Trac Academaidd Clinigol Cymru (WCAT) uchel ei pharch neu Gymrodoriaeth Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru. Drwy gwblhau Cymrodoriaeth Academaidd, byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i adeiladu ac arwain ymchwil drosiadol o fainc i ochr gwely neu welliannau o ran darparu gofal iechyd yng Nghymru. Bydd y cyfleoedd arweinyddiaeth yn eich paratoi ar gyfer rolau arweinyddiaeth a rheoli yn y dyfodol.

## Opsiynau hyblyg sy’n addas i chi

Pe bai unrhyw beth yn newid unwaith y bydd eich hyfforddiant yn dechrau, mae ein dewisiadau hyfforddiant hyblyg yma i’ch helpu i aros ar y trywydd iawn. Mae’r opsiwn i hyfforddi ar sail lai nag llawn amser (LTFT) yn eich helpu i neilltuo amser i feysydd eraill o’ch bywyd pe bai unrhyw beth annisgwyl yn digwydd, neu os ydych chi’n bwriadu ymgymryd â chyfleoedd datblygu, neu ddechrau teulu.

## Cyflogwr Arweiniol Sengl

Gan adeiladu ar lwyddiant ein model Cyflogwr Arweiniol Sengl ar gyfer hyfforddeion Meddygon Teulu, rydym wedi cyflwyno hyn ar gyfer ein holl hyfforddeion, sy’n golygu lle bynnag y byddwch yn hyfforddi yng Nghymru, bydd gennych un cyflogwr am gyfnod eich rhaglen hyfforddi. Mae prif fanteision y model hwn yn cynnwys: dim ond un contract ar gyfer eich rhaglen hyfforddi y bydd angen i chi lofnodi a byddwch yn profi pontio mwy di-dor rhwng swyddi; byddwch yn cael eich ymholiadau yn cael eu hateb yn gyflym ac yn gyson; dylai ceisiadau morgais fod yn fwy syml; llai o gymhlethdod gyda’r Dreth ac Yswiriant Gwladol a budd-daliadau cysylltiedig (mamolaeth, tadolaeth ac ati); a byddwch yn gallu manteisio ar gynllun Aberth Cyflog y GIG a phecynnau eraill Budd-daliadau Gweithwyr sydd ar gael i eraill GIG Cymru.



Jessica, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant



Ysbyty Cefn Coed, Abertawe

Fel meddyg yng Nghymru, cewch gyfle i barhau â thraddodiadau'r GIG yng ngwlad ei eni a dylanwadu ar fodelau gofal yn y dyfodol.

# Gweithio yng Nghymru



Jaya, Seiciatrydd Ymgynghorol

# Traddodiadau



Adesola, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant

## Cynnal y gorffennol a siapio'r dyfodol

Pan sefydlodd Aneurin Bevan y GIG ym 1948, gwnaeth hynny ar egwyddorion cydraddoldeb mynediad a'r gwasanaeth yn seiliedig ar angen, nid ar y gallu i dalu. Trwy ymgymryd â rôl sy'n addo mynediad at bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, byddwch yn gallu parhau â'r traddodiadau hyn a llunio'r gwasanaethau rydych chi'n eu darparu.

## Un yrfa, llawer o lwybrau

Mae gyrfa yng Nghymru yn rhoi cyfle i chi weithio ym maes meddygaeth arloesol, mewn amrywiaeth o amgylcheddau. O greu aelodau artiffisial gydag argraffu 3D i weithio fel meddyg teulu gwledig; cymryd rhan mewn ymchwil arloesol yn y brifysgol i ymuno â thîm Meddygaeth Mynydd. Mae digon i gyffroi am beth bynnag fo'ch dewis gyfeiriad.

## Datblygu'r ffordd rydych chi ei eisiau

Mae GIG Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'ch helpu i lunio'ch gyrfa fel y dymunwch. Felly boed yn ddewis cynhwysfawr o gyrsiau DPP, arfarniad strwythuredig gan uwch feddygon, opsiynau gweithio hyblyg neu'r cyfle i brofi ystod o amgylcheddau cyffrous, mae potensial bron diderfyn i chi archwilio'r pethau sydd o ddiddordeb mwyaf i chi a darganfod gyrfa werth chweil mewn ffordd sy'n gweddu i'ch ffordd o fyw.

## Diwylliant ymchwil bywiog, adnoddau o'r radd flaenaf

Yng Nghymru rydym yn cydnabod bod ymchwil yn newid bywydau ac yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer datblygu gyrfa. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnig cyllid, cefnogaeth a hyfforddiant i'ch galluogi i gymryd rhan mewn ymchwil a chyfrannu at yr ymchwil safonol ryngwladol sy'n digwydd yma. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn dod â'ch gyrfa i Gymru, y byddwch yn gallu cwympo yn ôl ar ystod wych o adnoddau sy'n rhoi'r sgiliau cywir i chi weithio ar flaen y gad o ran gwybodaeth ac ymarfer cyfredol.



Hooria, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant



Parc Iechyd Keir Hardie



Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd
Prifysgol Caerdydd



Jessica, Meddyg Teulu dan Hyfforddiant

## Llesiant

Yn GIG Cymru, rydym yn mynd ati i annog ac yn galluogi ein cydweithwyr i flaenoriaethu hunanofal ac iechyd a lles pobl eraill, drwy hyrwyddo diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol a hunan-dosturi.

## Oes o gynnydd

Drwy ymuno â'r GIG yng Nghymru, byddwch yn darganfod diwylliant lle nad ydym byth yn rhoi'r gorau i ddysgu, lle mae sgiliau a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n agored, a lle mae eich datblygiad personol yn flaenoriaeth uchel — wedi'r cyfan, rydym yn deall bod gwir gyflawniad yn dod o'r darlun mwy.

## Cefnogaeth adleoli

Mae Cymru'n cynnig pecynnau adleoli cynhwysfawr, ac os ydych chi'n feddyg sylfaen blwyddyn 1, mae gennych hawl i lety am ddim pa bynnag ran o Gymru a ddewiswch. Rydym hefyd yn cynnig llawer o fudd-daliadau sy'n addas i deuluoedd, gan gynnwys cynlluniau talebau gofal plant, polisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chyfleusterau meithrin ar y safle.

Gan elwa o ymdeimlad cryf o gymuned, tai fforddiadwy, ysgolion gwych a llwyth o ffyrdd o ymlacio a chael hwyl, mae Cymru'n lle gwych i weithio a byw naill ai ar eich pen eich hun, neu gyda'ch teulu.

# Byw yng Nghymru



Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, De Cymru















Mae Cymru'n gryno ond amrywiol, ac mae Cymru'n wlad lle mae cymunedau hardd, arfordiroedd digyffwrdd, cefn gwlad drawiadol a dinasoedd bywiog yn cyfuno i gynnig yr holl ymlacio a'r antur deuluol sydd ei hangen arnoch chi.

# Gwlad o wrthgyferbyniadau cymhellol



Traeth Harlech, Eryri

## Cestyll a chwedlau

Mae cestyll yn diffinio tirwedd Cymru yn llawn cymaint â'n bryniau a'n dyffrynnoedd. Mae 641 i gyd — trawiadol, yn llawn hud a lledrith chwedlau — pob un yn cynnig cipolwg i'r gorffennol a'r cyfle i chi archwilio'r chwedlau o fewn eu waliau. Wrth fynd yn ôl hyd yn oed ymhellach, mae dwsinau o safleoedd cynhanesyddol i'w gweld hefyd, gan gynnwys rhai o'r rhyfeddodau Neolithig sydd wedi'u cadw orau yn y DU.

## Yr awyr agored

Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Ond ble bynnag yr ewch, mae natur o'ch cwmpas chi. O fynyddoedd anhygoel i gymoedd afonydd dramatig, traethau gwag i gopaon clogwyni garw, mae'r dirwedd naturiol yn cynnig cefndir trawiadol p'un a ydych mewn hwyliau am antur, yn edrych i ymlacio neu'n dilyn eich trefn ddyddiol yn syml.

## Bywyd traeth

O arfordir byd-enwog Gŵyr yn y de, i Benrhyn prydferth Llŷn ar ymyl Parc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd, mae Cymru yn gartref i lawer o draethau gorau'r DU — pob un yn hygyrch ar hyd llwybr arfordirol parhaus o 870 milltir sy'n datgelu cwtoedd, pentiroedd a baeau sy'n gorlifo o fywyd gwyllt.

## Byw trefol

Mae Caerdydd yn dod i'r amlwg yn gyflym fel un o brifddinasoedd mwyaf egnïol Ewrop, mae Caerdydd yn cynnig siopa o'r radd flaenaf, bwyta chwaethus, parciau wedi'u cadw'n hyfryd a'r holl fanteision eraill y byddech chi'n eu disgwyl o fyw trefol fodern. Mae Casnewydd yn ddinas a adnewyddwyd gan fuddsoddiad, mae Abertawe yn apelio gyda'i maestrefi traeth ac mae tref farchnad Wrecsam yn cynnig adeiladau hanesyddol a dyma'r porth i Ogledd Cymru.

## Diwylliant bywiog ac amrywiol

Yng Nghymru, fe welwch ddiwylliant bywiog ac amrywiol, gyda'r uchelgais i fynd i'r afael â gwahaniaethu a chreu cymunedau cydlynol sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau. Mae Cymru wedi gosod y nod iddi hi ei hun o ddod yn genedl o noddfa a dileu ffurfiau o wahaniaethu erbyn 2030. Lansiad ei gynlluniau gweithredu Gwrth-hiliol, LGBTQ+ ac Anabledd cyntaf o'i fath ar gyfer Cymru yn canolbwyntio ar addysg, iechyd, cartrefi, diwylliant a threftadaeth.

**(TUDALEN CHWITH) O'R CHWITH I'R DDE: Manorbier, Dinbych-y-pysgod, Mermaid Quay yng Nghaerdydd, Forest Feastival, gwŷl fwyd Merthyr Mawr, Marchnad Caerdydd, Manorbier, Dinbych-y-pysgod, Lido Cenedlaethol Cymru ym Mhontypridd, Bryniau Presili.**



Mae Cymru'n llawn posibiliadau. O antur cyffroes i bleserau teuluol syml, a phopeth rhyngddynt, does dim diwedd ar y ffyrdd y gallwch lenwi eich amser hamdden.

Arfordir, Sir Benfro







## Dewch i'r maes chwarae

Mae gan Gymru dreftadaeth chwaraeon balch. O glybiau rygbi, pêl-droed a hoci sy'n croesawu chwaraewyr o bob safon, i glybiau golff sy'n brolio cyrsiau pencampwriaeth, mae croeso i chi gymryd rhan a phrofi eich sgiliau.



## Antur ar stepen eich drws

Ar gyfer plant (bach a mawr), Cymru yw'r maes chwarae perffaith. Archwiliwch byllau creigiau dilychwin neu ewch i gerdded merlod ar draws ein traethau neu i fyny rhai bryniau bach Mae gennym draethau hygyrch - mae llawer ohonynt yn gyfeillgar i gŵn trwy gydol y flwyddyn - perffaith i roi cymaint o hwyl ag y gallwch ei drin i chi a'ch teulu.



## Eich prif ddinas adloniant

Gyda'i siopau dillad crand, ffefrynnau stryd fawr a'i arcedau Fictoraidd swynol, mae'n hawdd gweld pam mae Caerdydd ar y map fel cyrchfan ar gyfer siopa o'r radd flaenaf. Ychwanegwch leoliadau cerddoriaeth fyw hamddenol, glan y dŵr hynod fodern, amgueddfeydd sy'n addas i deuluoedd a theatr awyr agored yng nghysgodion y castell ac ni fyddwch yn gallu aros i ffwrdd.



## Bwyta i weddu i bob chwaeth

O fwytai â seren Michelin i farchnadoedd ffermwyr, caffis clyd i dafarndai gwledig sydd wedi ennill gwobrau, mae Cymru yn lle gallwch fwynhau bwyd blasus pwy bynnag rydych chi gyda nhw a beth bynnag yr hoffech ei fwyta.



## Hwyl i'r teulu gyda gwahaniaeth

Weithiau, mae plant yn chwilio am rywbeth ychydig yn wahanol. Os hoffech drefnu diwrnodau allan gwahanol i'r teulu , mae Cymru yn gartref i'r llinell zip gyflymaf yn y byd ynghyd â thrampolîn tanddaearol sydd 180m yn yr awyr.

**O'R TOP I'R GWAELOD:** Stadiwm Principality, Bryniau Preseli, Mermaid Quay yng Nghaerdydd, Tref Llanymddyfri, Zip World Gogledd Cymru.










(TUDALEN DDE) O'R TOP I'R GWAELOD:
Dinbych-y-pysgod, Forest Feastival, gwŷl fwyd Merthyr Mawr, Cwm Elan.

Yng Nghymru, nid gyrfa yn unig yr ydym yn ei gynnig, rydym yn cynnig ffordd o fyw.

**HyfforddiGweithioByw** | Cymru

hyfforddigweithiobyw.cymru
trainworklive@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

**Trawsnewid y gweithlu er mwyn Cymru iachach**

**Fersiwn 1 Mehefin-2025**